

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 7.00pm nos Fercher 1<sup>af</sup> o Fedi 2021

## Agenda

1. Presennol
2. Ymddiheuriadau
3. Cod Ymddygiad
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 30-06-2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Adroddiad Ariannol
7. Archwyllo Allannol
8. Taliadau angen sylw
  - a. D W Lewis Torri gwair Gorffennaf £ 685.00
  - b. HMRC Gorffennaf £ 150.00
  - c. Cyflog Gorffennaf £ 599.84
  - d. Trydanwr Diffib Pentir £ 206.56
  - e. ROSPA £ 82.20
  - f. Delwedd £ 70.85Tal i mewn
  1. Tal mlaen llaw am gladdedigaeth cwpwl £400.00
  2. Tal agor bedd J P Turner £200.00
9. Ceisiadau Nawdd
10. Prosiectau
  - a. Prosiect Ysgol Y Faenol
  - b. Logo newydd
  - c. Septic Tanc Glasinfryn
11. I'w trafod hefyd
  - Asesu Risg
  - Cynllun Busnas

**Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir**  
**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 30<sup>ain</sup> o Fehefin 2021**  
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

Presennol Cyng L A James – Cadeirydd Cyng D Jones-Morris, Cyng J Pierce, a Cyng D W Jones

Ymddiheuriadau Cyng B Jones a Cyng M Lynch

Cod Ymddygiad

Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-05-2021

Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng L A James yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion

Trafodwyd fod y Cyngor Llawn 10/06/21 wedi awgrymu peidio symud ymhellach ar hyn o bryd hefo'r syniad o cofrestru gweithgaredd'r Fynwent yn electronig hyd nes y byddai yn glir nad oedd yr angen am gofnodi yn ysgrifenedig yn stadudol.

Fel arall byddai yn ychwanegu at waith y Clerc yn hytrach nag ysgafnu

Adroddiad Ariannol

Rhannwyd y daflen ariannol y rhithiol ar y sgrin

Yn y cyfrif Cyfredol £32,110.39 a £35,038.51 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn

Archwyllo Mewnnol

'Roedd y adroddiad archwyllo mewnnol ag Ffurflen Flynyddol y Cyngor wedi ei anfon yn electronig i'r Cyngor cyfan.

Un argymhelliad oedd yn yr archwyllo sef fod y Cyngor yn methu arddangos eu holl gofnodion yn electronig ar y dudalen Wê ag i gymeryd camau priodol i liniaru y risg honno

Nodwyd yr argymhelliad a derbynwyd yr adroddiad

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith.

Taliadau angen sylw

Cymeradwywyd talu'r holl daliadau

Scottishpower	Trydan y Capel	£ 32.47	D W Lewis Torri gwair Mai	£ 900.00
HMRC Mehefin	Treth Incwm	£ 150.00	Cyflog Mehefin	£ 599.84
Diffib Pentir	Prynu a'i osod	£1485.84	Humphries Signs arwyddion diffib	£ 168.00
Humphries Signs	Arwydd P Pentir	£ 60.00	D W Lewis Torri gwair Mehefin	£ 635.00

Ceisiadau Nawdd

Hosbis Dewi Sant cais wedi cyrraedd heddiw ond dim mantolen ariannol

**Clerc i gysylltu a holi am fantolen**

Prosiectau

**Prosiect Ysgol Y Faenol** Lliw y llythrennau 'Canolfan Penrhos' fydd ar y wal tu allan sydd wedi cymeryd blaenoriaeth yn ddiweddar ag er fod samplau o'r lliw yn yr Ysgol tydi ddim wedi bod yn bosib ymweld a'r ysgol fel byddai rhywun yn dymuno.

Bu trafod pellach am y llwybr sy'n arwain at y ganolfan o'r ffordd fawr be nad oes math o rwystr rhwng yr Ysgol a'r ganolfan.

Son bellach y bydd yn Chwefror 22 ar y Cyngor yn cael symud i mewn

**Ymateb Gwynedd i Gamlins** Clerc wedi rhannu yn electronig yr ymateb oedd Gamlins wedi ei dderbyn o Adran Gyfreithiol Gwynedd ynglyn a'r brydles oedd yn ddi-fater a dweud y lleia Posib fod angen dirprwyaeth gyfarfod a Gamlin i drafod sut y gellir dwyn mwy o bwysa ar Wynedd i weithredu **Cytundeb o'r Cyngor Llawn**

**Logo newydd** Cadeirydd wedi trafod gyda'r dylunydd ag angen manylion y lliwia dan sylw Dylunydd wedi cynnig printio papur penawd slipiau ag yn y blaen ar ein rhan. Tra bod hynny i'w groesawy nid oes angen gormodedd ar hyn o bryd gan y bydd angen newid cyfeiriadau cyswllt a.y.y.b wrth symud i'r ganolfan newydd

**Septic Tanc Glasinfryn** Tra bod pethau yn symud ara deg iawn ydi hynny ond yr arbennigwr wedi bod yn ysbyty Glan Clwyd yn derbyn triniaeth.

Yn sgil i berchennog 'The Old School Barn' gysylltu a'r Clerc yn holi am gytundeb cyfreithiol ag i'r Clerc gysylltu a Dwr Cymru mae e-bost wedi ei anfon at y Gwasanaethau hynny yn holi am 'Sewer Search' fydd yn gost o oddeutu £200 ond yn adnabod yr union leoliad y pibelli sydd yn ol eu map o rwydwaith pibelli Galsinfryn yn croesi o fewn ein maes Parcio

#### I'w trafod hefyd

- Asesu Risg Y clerc heb ddsbarthu ar gyfer y Cyngor Llawn fel y gall unigolion craffu y gofrestr gyda'r gobaith o liniaru rhai o'r risgiau sydd wedi eu adnabod
- Cynllun Busnas Dal angen sefydlu grwp i ddarparu Cynllun 3 blynedd

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10